**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl ar Ddydd Mercher, 5ed Medi 2001 am 10.00a.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), J. Butterfield, M.Ll. Davies, P. Douglas, S. Drew, A.E.Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, N.J. Hughes, N. Hugh-Jones, M.M. Jones (Dirprwy ar ran G. Jones), P.M. Jones, R.E. Jones, D.M. Morris (sylwedydd), E.A. Owens, F. Shaw, J.A. Smith, K.P. Stevens, S. Thomas, K.E. Wells, C.H. Williams, P.O. Williams ac R.Ll. Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Pen Swyddog Cynllunio (Gogledd), Uwch-Swyddog Cynllunio (De), Swyddog Gweinyddu (G. Butler) a Chynorthwy-ydd Gweinyddol (S. Parry).

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorwyr D.W. Davies, J.R. Hughes, G. Jones, R.J.R. Jones, W.G. Thomas ac A.J. Tobin.

**NEWID YN AELODAETH Y PWYLLGOR**

Cyhoeddodd y Cadeirydd y byddai'r Cynghorydd S. Drew yn cymryd lle'r Cynghorydd J.R. Hughes fel cynrychiolydd y DAW ar y Pwyllgor Cynllunio a hynny ar unwaith.

**499. ISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a rhoi caniatâd cynllunio neu'i wrthod yn ôl fel y digwydd, fel y bo'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 01/2000/0993/PF | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth R.M. Jones, Berian, Llanefydd, Ger Dinbych.)<br>Addasu tai allan yn 5 annedd yn cynnwys codi cyfleusterau garej (manylion diwygiedig i'r hyn y rhoed caniatâd cynllunio iddo'n flaenorol dan rif côd 01/123/96/PF) yn yr Ysguboriau a'r Stablau, Lleweni, Ffordd yr Wyddgrug, Dinbych.<br>YN AMODOL ar ddileu cyfeiriad at yr angen am Ymrwymiad Adran 106, ar yr amod y gweithredir Amod 11 newydd yn llwyr; a diwygiad i amod rhif 10 ac amod newydd rhif 11:-<br>10. Nid yw dim datblygu i gychwyn hyd nes bydd y fynedfa i gerbydau o Ffordd Eglwyswen i Leweni wedi'i gwella yn unol â'r manylion hynny sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.<br>RHESWM - sicrhau bod y datblygiad yn cael ei wasanaethu gan ffurf mynediad foddhaol er lles diogelwch y briffordd ac amwynder. |

11. Nid oes dim mynediad cerbydol i fod ar gyfer cerbydau'r preswylwyr ac ni chaniateir ychwaith i unrhyw gerbydau adeiladu deithio ar hyd y lôn sy'n rhedeg heibio Maes y Parc i Ffordd yr Wyddgrug (A543) ac nid oes dim datblygu i gychwyn hyd nes bo manylion y dull o gyfyngu mynediad o'r fath, yn cynnwys darparu rhwystr corfforol, e.e. giât gloadwy neu folard(au) a'i lleoliad wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu hystyried a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig. Mae'r rhwystr a gymeradwyir wedi hynny i'w roi yn ei le cyn cychwyn y datblygiad.
RHESWM - er mwyn diogelu preifatrwydd/amwynder trigolion Maes y Parc, ystyrir bod y lôn yma'n annigonol i wasanaethu'r datblygiad.
Dymunai'r Aelodau canlynol iddo gael ei nodi eu bod wedi atal eu pleidlais - Cynghorwyr P.O. Williams ac R.Ll. Williams.

01/2001/0470/PF

(Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth R.M. Jones, Berian, Llanefydd, Dinbych)
Creu lleoedd pasio i gerbydau i ddarparu gwell trefniadau mynediad i wasanaethu addasiad arfaethedig adeiladau yn Fferm Lleweni yn unedau preswyl yn y lôn sy'n arwain o Ffordd Eglwyswen i Fferm Lleweni, Ffordd yr Wyddgrug, Dinbych.

01/2001/0603/PF

(Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth R.M. Jones, Berian, Llannefydd)
Newidiadau i ac addasu tai allan i ffurfio 11 o unedau preswyl yn yr Iard Gerbydau, Lleweni, Ffordd yr Wyddgrug, Dinbych
YN AMODOL ar ddileu cyfeiriad at yr angen am Ymrwymiad Adran 106, ar yr amod y gweithredir Amod 11 newydd yn llwyr; a newid i amod rhif 10 ac amod newydd rhif 11:-
10. Nid oes dim datblygu i gychwyn hyd nes bo'r fynedfa i gerbydau o Ffordd Eglwyswen i Leweni wedi'i gwella'n unol â pha bynnag fanylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.
RHESWM - sicrhau bod y datblygiad yn cael ei wasanaethu gan ffurf mynediad foddhaol er lles diogelwch y briffordd ac amwynder.
11. Nid oes dim mynediad cerbydol i fod ar gyfer cerbydau'r preswylwyr ac ni chaniateir ychwaith i unrhyw gerbydau adeiladu deithio ar hyd y lôn sy'n rhedeg heibio Maes y Parc i Ffordd yr Wyddgrug (A543) ac nid oes dim datblygu i gychwyn hyd nes bo manylion y dull o gyfyngu mynediad o'r fath, yn cynnwys darparu rhwystr corfforol, e.e. giât gloadwy neu folard(au) a'i lleoliad wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu hystyried a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig. Mae'r rhwystr a gymeradwyir wedi hynny i'w roi yn ei le cyn cychwyn y datblygiad.
RHESWM - er mwyn diogelu preifatrwydd/amwynder trigolion Maes y Parc, ystyrir bod y lôn yma'n annigonol i wasanaethu'r datblygiad.

01/2001/0602/PF

(Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd)
Parhau i ddefnyddio tir fel estyniad i gwrtil preswyl a chodi ystafell wydr (cais ôl-weithredol) yn Llys Haf, Y Grîn, Dinbych.
YN AMODOL ar amodau newydd rhif 1 a 2:-
1. Er darpariaethau Rhan 1 Dosbarthiadau E, F y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (neu unrhyw orchymyn sy'n diddymu ac yn ailfabwysiadu'r gorchymyn hwnnw wedi neu heb ei addasu) nid yw unrhyw ddatblygu a ganiateir gan y dywededig Ddosbarthiadau i'w gyflawni heb i ganiatâd cynllunio pellach yr Awdurdod Cynllunio Lleol gael ei roi.
RHESWM - er lles amwynder preswyl a/neu weledol.
2. Mae'r holl blannu, hadu, tywarchu, ffensio, walio neu driniaeth arall a gynhwysir yn y manylion tirlunio a gymeradwywyd fel y dangosir ar luniad cymeradwyedig rhif 05/05/01 i'w wneud yn y tymor

plannu o fis Tachwedd 2001 i fis Mawrth 2002 ac mae unrhyw goed neu blanhigion sydd o fewn cyfnod o bum mlynedd i'r datblygiad, yn marw, yn cael eu gwaredu neu'n cael eu difrodi neu'u heintio'n ddifrifol i'w cyfnewid yn y tymor plannu nesaf am eraill o faint a rhywogaeth debyg.
RHESWM - sicrhau safon datblygu foddhaol, er lles amwynder gweledol.

02/2001/0059/PF

(Cyhoeddodd y Cynghorydd K.P. Stevens ddiddordeb yn y cais canlynol.)
(Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno achos oddi wrth Paul McWade, Gwasanaethau Cymdeithasol (cylchredwyd yn y cyfarfod)).
Codi estyniad i'r cartref nyrsio presennol yng Nghartref Nyrsio Llys Marchan, Stryd Mwrog, Rhuthun.
YN AMODOL ar nodyn newydd i'r ymgeisydd:-
Tynnir sylw'r ymgeisydd at y sylwadau amgaeëdig yn y llythyr dyddiedig 26ain Ionawr 2001 oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru y mae'n rhaid cadw ato'n llwyr.
Fe'ch cynghorir nad yw'r caniatâd hwn yn dynodi bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn derbyn cynnydd yn y lleoedd gwelyau o'r 16 a gymeradwywyd fel rhan o'r caniatâd blaenorol a gyhoeddwyd dan Rif Côd 2/10,071. Bydd unrhyw gynnydd yn y niferoedd yn gofyn am gyflwyno cais, y bydd angen ei asesu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

03/2001/0429/PF

Newid defnydd arfaethedig estyniad Rhan 1 o Ddosbarth Defnydd B8 (Storio mewn Warws) i Ddosbarth Defnydd B2 (Cynhyrchu) yn Smurfit Print(UK) Berwyn Works, Ffordd Caergybi, Llangollen.
YN AMODOL ar amodau diwygiedig rhif 3 a 4:-
3. nid yw'r estyniad i'w ddechrau ei ddefnyddio at ddibenion cynhyrchu hyd nes y bydd wedi'i addasu i sicrhau na fydd unrhyw dai preswyl yn dioddef sŵn o fwy na 45 dB Laeq (1 awr maes rhydd) am unrhyw gyfnod o awr neu uchafswm o 50 dB (A)(fast) ar unrhyw adeg.
4. nid yw'r estyniad i'w ddechrau ei ddefnyddio at ddibenion cynhyrchu hyd nes bo manylion pob un o'r canlynol wedi'u cytuno'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'u gweithredu yn eu cyfanrwydd:-
(a) mesurau i leihau'r sŵn a gynhyrchir gan gerbydau/ weithgaredd sy'n gysylltiedig â chasglu a chael gwared ar bapur gwastraff o unrhyw sgipiau/biniau allanol, yn cynnwys distewi mecanweithiau rhybudd bacio ar gerbydau;
(b) mesurau i leihau'r sŵn o'r cwt gwactod a'r trawsnewidydd, a'r systemau cwndidau allanol ar do'r adeilad presennol.
RHESWM - diogelu amwynderau trigolion tai preswyl cyfagos.

09/2001/0015/PF

Estyniad i'r annedd bresennol yn Glan Clwyd Isa, Waen, Bodfari, Dinbych.

20/2001/0583/PF

Cyfnewid to gwastad ac estyniad unllawr am estyniad deulawr, ystafell wydr gefn a newidiadau i'r gweddlun blaen presennol yn yr Hen Siop, Graigfechan, Rhuthun.

23/2001/0571/PF

Cadw camerâu CCTV ar yr annedd bresennol yn Golygfa, Llanrhaeadr, Dinbych.
YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 1 :-
1. Nid yw'r camerâu a gymeradwyir drwy hyn i achosi edrych dros dai cyfagos ac maent i aros yn sefydlog yn y man a ddangosir ar y cynllun a gymeradwywyd drwy'r adeg. Mae mynediad at y sgriniau monitro i'w ganiatáu i swyddogion enwebedig o'r Awdurdod Cynllunio Lleol pan wneir cais ysgrifenedig.

RHESWM - er mwyn diogelu preifatrwydd ac amwynder trigolion tai cymdogol cyfagos.
(Dymunai'r Aelodau canlynol iddo gael ei nodi eu bod wedi atal eu pleidlais ar y cais hwn - Cynghorwyr N.J. Hughes, M.M. Jones a C.H. Williams).

24/2001/0581/PF

Datblygu tir i godi ty annedd a llunio mynedfa i gerbydau a cherddwyr (cais amlinellol) ar dir yn gyfagos i Drovers Cottage, Rhewl, Rhuthun.

43/2001/0587/PF

(Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi mater cynllunio nad ymdriniwyd ag ef eisoes yn yr adroddiad erbyn 12fed Medi, 2001.)
Codi 4 annedd (byngalos) a llunio mynedfa newydd i gerbydau/cerddwyr ar dir yn Ffordd Ffrith, y tu ôl i Spyders Cottage, 139 Victoria Road, Prestatyn.
YN AMODOL ar amodau newydd rhif 10 ac 11:-
10. Nid yw dim datblygu i ddigwydd hyd nes bydd manylion y pen troi estynedig a'r cyswllt llwybr wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo, y manylion i gynnwys goleuadau a'r dull o atal traffig cerbydol rhag defnyddio'r llwybr. Mae'r cyswllt llwybr a'r pen troi estynedig i'w darparu'n unol â'r manylion cyn i neb fyw yn unrhyw un o'r anheddau a ganiateir drwy hyn.
RHESWM - er lles diogelwch a diogeliad y briffordd a cherddwyr.
11. Mae darpariaeth i'w gwneud tra bo'r datblygiad yn cael ei adeiladu i ganiatáu symudiad cerddwyr ar hyd holl hyd Ffordd Ffrith i'w chyffordd â Seabank Drive yn unol â Datganiad Dull sydd i'w gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig cyn cychwyn unrhyw ddatblygiad.
RHESWM - sicrhau bod yr hawl tramwy cyhoeddus yn cael ei gadw.

44/2001/0669/PF

Datblygu 0.064 hectar o dir drwy godi 1 annedd a garej ar eu pen eu hunain a llunio mynedfa newydd i gerbydau/cerddwyr (Cais amlinellol) ar dir yn (Rhan o ardd) Bryn Mai, Pentre Lane, Rhuddlan, Y Rhyl.
YN AMODOL ar amod newydd rhif 10 a nodyn newydd i'r ymgeisydd:-
10. Er y manylion a ddangosir ar y cynllun a gyflwynwyd Rhif 1429/1/MAR/01 mae gwrych newydd i'w blannu ar du blaen y safle yn ystod y tymor plannu cyntaf ar ôl cychwyn codi'r annedd a ganiateir drwy hyn. Mae manylion rhywogaethau, niferoedd a lleoliad y coed a'r planhigion o fewn y gwrych i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo cyn cychwyn y datblygiad. Mae unrhyw blanhigion neu goed o fewn y gwrych sydd, o fewn cyfnod o bum mlynedd i'w plannu yn marw, yn cael eu gwaredu neu'n cael eu difrodi neu'u heintio'n ddifrifol i'w cyfnewid yn y tymor plannu nesaf am rai eraill o faint a rhywogaeth debyg.
RHESWM - er lles golwg a chymeriad golygfa'r stryd.
Nodyn i'r Ymgeisydd - tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffyrdd Atodol rhif 1, 3, 4, 5 a 10.
Tynnir eich sylw at y nodiadau amgaeëdig yn ymwneud â cheisiadau am ganiatâd i adeiladu croesfan i gerbydau dros lwybr troed/llain ymyl ffordd dan Adran 184 Deddf Priffyrdd 1980.

45/2001/0340/PF

Codi pont llwybr troed/ffordd feics ddur a dynesfa/argloddiau ar dir i'r dwyrain o'r Bont Ffordd, Ffordd Tynewydd, Y Rhyl.
YN AMODOL ar amod newydd rhif 4 a nodyn newydd i'r ymgeisydd:-
4. Mae manylion dyluniad, gorffeniad a lliw'r gwaith metel a phaneli metel y bont newydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo cyn cychwyn y datblygiad ac mae'r bont i'w hadeiladu'n unol â'r manylion a gymeradwywyd.
RHESWM - er lles amwynder gweledol.

| | |
|---|---|
| | Nodyn i’r ymgeisydd - A wnewch chi sicrhau bod sylwadau Rail Track (llythyr dyddiedig 27ain Gorffennaf 2001) yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn y manylion adeiladu os gwelwch yn dda. |
| 45/2001/0728/PO | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd)<br>Datblygu 0.037 hectar o dir drwy godi 1 annedd (cais amlinellol) ar dir (Rhan o Ardd 20 Ffordd Rhuddlan) yn wynebu Bryn Coed Park, Y Rhyl.<br>YN AMODOL ar nodiadau newydd i’r ymgeisydd:-<br>1. Tynnir eich sylw at y Nodiadau Priffyrdd Atodol rhif 1, 3, 4, 5 a 10.<br>2. Tynnir eich sylw at y nodiadau amgaeëdig yn ymwneud â cheisiadau am ganiatâd i adeiladu croesfan i gerbydau dros lwybr troed/llain ymyl ffordd dan Adran 184 Deddf Priffyrdd 1980. |
| 46/2001/0551/PO | Datblygu 0.09 hectar o dir drwy godi canolfan gymunedol (cais amlinellol) yn y Ganolfan Gymunedol, The Roe, Llanelwy.<br>YN AMODOL ar newid amod rhif 4 - “600mm”. |
| 47/2001/0563/PR | (Cyhoeddodd y Cynghorydd R.Ll. Williams ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried).<br>(Ar ôl ystyried eglurhad ar ran o adroddiad y swyddog - paragraff 11, tudalen 99, anwybyddu i, ii, iii Mae moch daear yn rhywogaeth warchodedig dan Gyfraith Prydain ond nid dan Gyfraith Ewrop Felly, nid yw’r ddeddfwriaeth a grybwyllir yn berthnasol.)<br>Manylion 1 annedd gyda garej ar wahân a thirlunio a gyflwynwyd yn unol ag Amod Rhif 1 caniatâd cynllunio amlinellol Cyfeirnod 47/1008/98/PO (Materion a gadwyd yn ôl) ym Min y Nant, Rhuallt, Llanelwy.<br>YN AMODOL ar newid i amod rhif 2 - dileu “copi”.<br>(Dymunai’r Cynghorydd S. Drew iddo gael ei nodi ei bod wedi atal ei phleidlais ar y cais hwn.) |

(ii) Gwrthod

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 01/2001/0745/PF | (Ar ôl ystyried pedwar llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd, yr Ymgeiswyr, C.F. Watkins, Cythynog, Abbey Road a S.M. Mather, 18 Abbey Road, Dinbych.)<br>Codi adeilad swyddfa/storio deulawr yn y Maes Parcio gyferbyn â Copyrite House, Stryd y Dyffryn, Dinbych.<br>Penderfynwyd ymhellach y dylid cysylltu ag Adfywio Economaidd i gynnig cyngor i’r ymgeiswyr ar adeiladau eraill. |
| 30/2001/0038/PF | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno achos oddi wrth J. Ryding, Ty Nant, 6 Parc Bach, Trefnant a newid i’r adroddiad yn adlewyrchu presenoldeb y Cynghorydd R.E. Jones yn yr ymweliad safle).<br>Codi 1 annedd a llunio mynedfa newydd i gerbydau ar dir yn Trefnant Isa yn wynebu Ffordd Pen y Maes, Parc Grosvenor, Trefnant, Dinbych.<br>(Dymunai’r Cynghorydd P.O. Williams iddo gael ei nodi ei fod wedi pleidleisio i ganiatáu’r cais hwn) |
| 30/2001/0304/PO | (Ar ôl newid i’r adroddiad i adlewyrchu presenoldeb y Cynghorydd R.E. Jones yn yr Ymweliad Safle)<br>Datblygu 0.037 hectar o dir drwy godi annedd ar ei phen ei hun a llunio mynedfa newydd i gerbydau (cais amlinellol) ar dir yn 1 Ffordd Pen y Maes, Parc Grosvenor, Trefnant, Dinbych. |

| | |
|---|---|
| 43/2001/0646/PF | (Ar ôl ystyried chwe llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth: CCGC, Cyng. S. Drew, Care for the Wild International, Eric Lewis-Jones, 27 Princes Avenue, Prestatyn, Deiseb â 890 o lofnodion arni a gyflwynwyd gan Ann Jones AC, ac Arolwg Moch Daear a gyflwynwyd ar ran yr ymgeiswyr)<br>Codi 20 o anheddau, llunio a newid ffordd stad a darparu lle agored cyhoeddus (newid i gynllun a gymeradwywyd yn flaenorol) ar dir yn Melyd Avenue, Prestatyn.<br>RHESWM DIWYGIEDIG 4:-<br>4. Nid yw'r ymgeisydd wedi darparu arolwg ecolegol llawn o'r safle i gael gwybod a yw'r safle'n gynefin rhywogaethau gwarchodedig, yn arbennig moch daear, ystlumod a madfallod dŵr cribog, ai peidio. Yn niffyg gwybodaeth ddigonol nid yw'r Cyngor yn gallu ystyried mater rhywogaethau gwarchodedig yn iawn a pha un a fyddai'r datblygiad fel y'i cynigir yn debygol o arwain at unrhyw niwed i rywogaethau gwarchodedig neu i'w cynefinoedd ai peidio. |
| 44/2001/0749/PF | Cadw estyniad to dormer y tu ôl i'r ty annedd (Cais ôl-weithredol) yn Bedw Arian, Princes Road, Rhuddlan, Y Rhyl. |

*(b)* *bod y cais canlynol i'w ohirio er mwyn gallu ymweld â'r safle am y rhesymau a nodir:-*

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 42/2001/0666/PF | (Ar ôl ystyried pedwar llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Cymuned Dyserth, Preswylwyr Pen R'allt, Bryn Einion, Rosemount, 2 Hen Neuadd yr Ysgol, Stryd Fawr, Dyserth, Chelsea McGrath a G. Lunt, 2 Hen Neuadd yr Ysgol a'r Ymgeisydd).<br>Gwaith cloddio, codi waliau cynhaliol a rheiliau dur a darparu llawr caled i ddarparu lle parcio ceir ar gyfer Rhif 1 Hen Neuadd yr Ysgol (cynllun diwygiedig i'r un a gymeradwywyd dan Gyfeirnod 2/2001/190/PF). (Yn rhannol ôl-weithredol) ar dir y tu ôl i Hen Neuadd yr Ysgol, Stryd Fawr, Dyserth, Y Rhyl.<br>Penderfynwyd ymhellach fod yr Ymweliad Safle i ddigwydd ar ddiwedd diwrnod yr ysgol, pan fo'r llwybr mewn defnydd. |

*(c)* *bod penderfyniad canlynol y Pwyllgor i roi caniatâd cynllunio mewn perthynas â chais gan Aelod o'r Cyngor i'w gyfeirio at y Cyngor llawn yn unol â Chofnod Rhif 5 y 15fed Chwefror 1996:-*

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 47/2001/0721/PO | (Cyhoeddodd y Cynghorydd R.Lloyd Williams ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried).<br>(Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd)<br>Adnewyddu Cais Cyfeirnod 47/248/98/PO sy'n cynnwys cyfnewid annedd (Cais amlinellol) yn Rhan o Gae OS Rhif 7280 yn gyfagos i Bryn Clwyd, Ffordd Treffynnon, Llanelwy.<br>YN AMODOL ar amod newydd rhif 9 a nodyn newydd i'r ymgeisydd:-<br>9. Mae'r manylion a fynnir gan Amod Rhif 1 i gynnwys lefelau llawr gorffenedig wedi'u gosod o leiaf 600mm yn uwch na lefel presennol y llawr.<br>RHESWM - i leihau perygl llifogydd.<br>Nodyn i'r Ymgeisydd - fe'ch cynghorir na ddylai'r annedd gyfnewid fod yn sylweddol wahanol i'r gwreiddiol yn rhinwedd ei maint, dyluniad a chymeriad i gyd-fynd â Pholisi HSG8 Cynllun Datblygu Unedol Cyngor Sir Ddinbych. Yn y cyswllt hwn dengys fy nghofnodion fod gan yr annedd wreiddiol arwynebedd llawr o tua 160 metr sgwâr. |

**500 WAREL BURLEY HILL, MAESHAFN**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol). Ar ôl ystyried deuddeg llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth yr Ymgeisydd; Mrs Fraser, Llanferres; B.A. Corus; Ymgyrch Gadwraeth Clwydian; A.P. King, Bryn Tirion, Pant y Mwynion, Maeshafn; Cyngor Cymuned Llanferres; Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (2); Cymdeithas Warchodaeth Llanarmon a'r Cylch; Cymdeithas Wledig Maeshafn a'r Cylch; Coleg Llysfasi ac Undeb Llafur y GMB, gwrthodwyd y cais i estyn y gweithgareddau cloddio carreg galch presennol, yn ymgorffori cynigion adennill ac ôl-ofal (Gwreiddiol cynnig Rhagfyr 1999 wedi'i ddiwygio ym mis Medi 2000. Cynnig Medi 2000 wedi'i ddiwygio Ebrill 2001) yn Chwarel Burley Hill, Pant Du, Eryrys, Maeshafn**.**

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion, Roger Bennion (cyn-Swyddog Mwynau), Bob Sheffield (Swyddog Mwynau, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam am ei gyfraniad technegol) a'r ymgeiswyr am y gwaith a wnaethant yn dod â'r cais hwn ger bron y Pwyllgor heddiw.

Cyfeiriodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio yr Aelodau at yr adroddiad ychwanegol a gylchredwyd, yn rhestru'r sylwadau hwyr a dderbyniwyd. Hysbysodd yr Aelodau fod sylwadau hwyr wedi'u hymgorffori yn adroddiad Bob Sheffield i gynnwys sylwadau a godwyd gan y Grwp Ystlumod a'r Grwp Moch Daear.

***PENDERFYNWYD*** *gwrthod y cais i estyn y gweithgareddau cloddio carreg galch presennol, yn ymgorffori cynigion adennill ac ôl-ofal yn Chwarel Burley Hill, Pant Du, Eryrys, Maeshafn.*

(Ataliodd y Cynghorwyr M. German, K.P. Stevens, N.J. Hughes eu pleidlais ar y cais hwn)

**501. MATER GORFODI**

ENF/2001/006

Estyniad to dormer y tu ôl i annedd yn Bedw Arian, Princes Road, Rhuddlan.

***PENDERFYNWYD*** *rhoi awdurdodiad ar gyfer y canlynol:-*

*(a) cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau y ceir gwared â'r estyniad dormer diawdurdod; a*

*(b) cychwyn achos erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y sawl neu'r rhai y cyflwynir unrhyw Rybudd Gorfodi, neu Rybudd arall o'r fath, iddynt neu y cymerir camau cyfreithiol yn eu herbyn os digwydd iddynt fethu â chydymffurfio â'u gofynion.*

**502. DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn gofyn am sêl bendith i ymweliadau safle sy'n codi o Eitem Rhif 2 ar yr Agenda gael eu cynnal ar 10fed Medi ac yn rhoi gwybod am aelodaeth bresennol y Panel Ymweld â Safleoedd.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliad safle a gymeradwywyd ar 10fed Medi 2001.*

**503. ER GWYBODAETH**
**CEISIADAU A BENDERFYNWYD GAN BENNAETH GWASANAETHAU CYNLLUNIO DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad diwygiedig (a gylchredwyd yn y cyfarfod) ynghylch y ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 2il Gorffennaf 2001 a'r 18fed Awst 2001.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.15p.m.

************